

## CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL

### Cofnodion o gyfarfod Mis Mawrth Cyngor Cymuned Llanddarog a gynhaliwyd ar y 14/03/2018 yn Festri Porthyrhyd am 19.30yh.

#### Minutes of the March meeting of Llanddarog Community Council held on the 14/03/2018 at the Vestry Porthyrhyd 19.30pm.

##### **1.0 Presennol / Present:**

Cynghorwyr / Councillors: J Youens (Cadeirydd / Chairman), R Jones, M Rees, W Evans, J Williams O.B.E, S Herridge, R Newell, D Stewart & R Owen.

Cyng Sir A Davies / *County Cllr A Davies.*

Cynrychiolydd Heddlu / *Police representative.*

Clerc / *Clerk & Cyfieithydd / Translator.*

##### **2.0 Ymddiheuriadau / Apologies.**

Cynghorwyr / *Councillors:* T Evans & E Davies.

##### **3.0 Datganiadau o fuddiannau / Declarations of interest.**

(a) *Item Agenda 15 / Agenda Item 15*

Cynghorwyr / *Councillors* R Jones a M Rees : Aelodau o'r Eglwys – personol nid rhagfarnol / *Members of the Church – personal not prejudicial.*

(b) *Item Agenda 15 / Agenda Item 15*

Cyng / *Cllr* W Evans: Aelodau o Neuadd Llanddarog – personol nid rhagfarnol / *Member of Llanddarog Hall – personal not prejudicial.*

Fe wnaeth y Clerc hefyd datgan diddordeb personol yn agenda item 15 gan ei fod yn gweithio yn adran flaen gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin / *The Clerk also declared a personal interest in agenda item 15 as he works in Carmarthenshire County Council's forward planning section.*

##### **4.0 Materion Plismona a diogelwch ffyrdd / Policing and Road Safety Matters**

Rhodddwyd adroddiad ar lafar llawn gan y Cynrychiolydd o'r Heddlu a rhodddwyd cyfle i Aelodau i ofyn cwestiynau. Fe benderfynwyd nodi'r adroddiad. Diolchwyd i'r Swyddog am fynychu'r cyfarfod ac fe wnaeth ef adael am 19.40yh, heb ddychwelyd. / *A full verbal report was provided by the police representative and Members were provided with the opportunity to ask questions. It was resolved to note the report. The officer was thanked for attending the meeting and he departed at 19.40pm, not to return.*

##### **5.0 Materion Cyngor Sir - Cyng Sir A Davies / County Council matters - County Cllr A Davies**

Fe wnaeth Cyng Sir Davies rhoi adroddiad llawn, gan gynnwys cadarnhad o gyllideb y Cyngor Sir, sefydliad cwmni tai a hefyd trafodaethau ynglŷn â newidiadau i ddarpariaeth iechyd. Fe benderfynwyd diolch i Cyng A Davies am ei adroddiad. / *County Cllr Davies provided a full report which included confirmation of the County Council's budget, establishment of a housing*

*company and discussions with regards changes to Health provision. It was resolved to thank County Cllr Davies for her report.*

### **6.0 Adroddiad y Cadeirydd / Chairman's Report**

*Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r Cyfarfod. / The Chairman welcomed everyone to the Meeting.*

### **7.0 Cadarnhau ac arwyddo Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 14/02/18 / Confirmation and signing of the Minutes of the Council Meeting 14/02/18**

*Ar ôl cynnig gan y Cyng M Rees ac eilio gan Cyng R Jones; penderynwyd cadarnhau'r cofnodion gan y Cyngor, yn ddarostyngedig ei fod yn cael ei nodi yng nghofnod 4.0 cafodd y cais ei wneud am leihau cyflymder cyffredinol yn hytrach na mesurau gostegu traffig penodol. / Following a proposal by Cllr M Rees and seconding by Cllr R Jones, it was resolved to confirm the minutes by the Council, subject to it being noted in minute 4.0 that the request made was for general speed reduction as oppose to implementing specific traffic calming measures.*

### **8.0 Materion yn Codi o'r cofnodion uchod / Matters arising from the above minutes.**

*(a) Yng Cofnod 16.0 – Cadarnhaodd y Cyng Sir Davies fod cyfarfod safle wedi ei threfnu i drafod y mater yma gyda swyddogion y Cyngor Sir. Fe benderfynwyd nodi'r diweddariad. / Minute 16 refers - County Cllr A Davies confirmed that a site meeting had been arranged to discuss this matter with officers from the County Council. It was resolved to note the update.*

### **9.0 Gohebiaeth / Correspondence.**

*(a) Nodwyd yr itemau isod / The below items were noted.*

**1 Llywodraeth Cymru-** Cynllun gwaith polisi trethi 2018 a datblygu trethi newydd yng Nghymru / **Welsh Government – Tax policy work plan 2018 and developing new taxes in Wales.**

**2 Llywodraeth Cymru-** Adolygiad o'r Sector Cyngorau Cymuned a Thref – cylchlythr y Panel, Ymgynghoriad ar Rifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru, a hefyd Cynadleddau Trosglwyddo Asedau Cymunedol/ **Welsh Government – Review of the Community and Town Council Sector – newsletter of the Panel, Consultation on Edition 10 of Planning Policy Wales, and also Community Asset Transfer Conferences.**

**3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda -** Trawsnewid Gwasanathau Iechyd Meddwl / **Hywel Dda University Health Board - Transforming Mental Health Services.**

**4 Un Llais Cymru –** Rhaglen hyfforddiant, Bwletin Chwefror a Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol / **One Voice Wales – Training programme, February bulletin and Innovative Practice Annual Awards Ceremony.**

**5 Keep Britain Tidy** (seasneg yn unig) - The Great British Spring Clean.

**6 Cynulliad Cenedlaethol Cymru -** Ymgynghoriad ar y Bil Awtistiaeth (Cymru) drafft / **National Assembly for Wales– Consultation on the draft Autism (Wales) Bill**

**7 Cyngor Sir Caerfyrddin –** Casgliadau Gwastraff Gardd a hefyd canlyniadau ymgynghoriad y gyllideb 2018-2019 / **Carmarthenshire County Council – Garden Waste Collection Service and also outcome of the Budget consultation 2018-2019.**

**8 Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau -** cyfarfod cyhoeddus 08/03/2018. / **Office for the Police and Crime Commissioner - Public meeting 08/03/2018.**

**9 Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru -** canllaw wedi'i ddiweddarau ar gynnal arolygon cymunedol gan brif gynghorau /

**Local Democracy and Boundary Commission for Wales -** guidance on the conduct of community reviews by principal councils

**10 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru -** Heneiddio'n Dda yng Nghymru - Arolwg partner strategol / **Older People's Commissioner for Wales Ageing Well in Wales - Strategic partner survey**

**11 Aren Cymru –** Taith Dros Fywyd - / **Kidney Wales – Walk for Life**

- 12 **Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda** – Gwasanaethau cludo cleifion di-frys / **Hywel Dda Community Health Council** – Non Emergency Transport Services
- 13 **Cynghorau Iechyd Cymuned Hywel Dda** – Gwasanaethau cludo cleifion di-frys / **Hywel Dda Community Health Council** – Non Emergency Transport Services
- 14 **Cadwch Gymru'n Daclus** – gweithio'n agos / **Keep Wales Tidy** – working closely.
- 15 **Eiriol** – Cylchlythr / **Eiriol** – Newsletter.
- 16 **Cymorth Cynllunio Cymru** – Hyfforddiant yn Llanelli ar 15/3/2018 / **Planning Aid Wales** – training in Llanelli on 15/3/2018.
- 17 **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - digwyddiad trafodaeth / **Independent Remuneration Panel for Wales** - discussion event.

(b) Gweithredoedd yn sgil ohebiaeth / Actions resulting from correspondence:

1 **Llywodraeth Cymru** – Cefnogaeth ariannu ar gael yn 2018-19. Penderfynwyd rhestri yr item ar agenda cyfarfod mis Ebrill 2018 y Cyngor / **Welsh Government** – Funding support available in 2018-19. It was resolved to list this item on the agenda of the April 2018 Council meeting.

2 **Swyddfa Archwilio Cymru** - arolwg o gynghorau tref a chymuned. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn ymgymryd â hwn ar ran y Cyngor. / **Wales Audit Office** - survey for town and community councils. It was resolved that the Clerk undertake the survey on behalf of the Council.

**10.0 Gysgodfa bws arfaethedig yn Llanddarog / Proposed bus shelter in Llanddarog**

Rhodddwyd ystyriaeth i ohebiaeth oddi wrth y Cyngor Sir a diweddariad gan Cyng Sir A Davies. Fe benderfynwyd aros am ragor o wybodaeth oddi wrth y Cyngor Sir cyn trafod ymhellach. / *Consideration was given to correspondence received from the County Council and an update from County Cllr A Davies. It was resolved to await further information from the County Council before discussing further.*

**11.0 Gwobrau'r Gymuned a'r Ieuenctid a chadarnhau trefniadau / Community and Young People's awards and confirmation of arrangements.**

Fe benderfynwyd taw Miss Vilna Thomas fydd yn derbyn Gwobr y Gymuned. Nid oedd enwebiad wedi ei dderbyn am Wobr Yr Ieuenctid. Fe wnaeth yr Aelodau gynghori ynglŷn â'r wobwr ac arysgrifed fel y ganlyn. Fe fydd y rhain yn cael ei gyllido gyda Phŵer Adran 137. Fe fydd y Cinio Blyneddol yn cael ei gynnal yn Prince, Porthryhyd. Fe fydd Miss Vilna Thomas a Cyng Sir A Davies yn cael ei gwahodd (gyda gwesteion) gyda phwerau Adran 137 yn cael ei ddefnyddio. / It was resolved that Miss Vilna Thomas will receive the Community Award. No nominations had been received for the Young People's award. Members advised in terms of inscription and the prize. These are to be funded with Section 137 powers. The Annual Dinner will be held at the Prince Porthryhyd. Miss Vilna Thomas and County Cllr A Davies (and guests) will be invited with Section 137 powers utilised.

**12.0 Newidiadau i ddeddfwriaeth diogelu data / Changes to data protection legislation.**

Fe wnaeth bob Aelod derbyn papurau o flaen llaw'r cyfarfod. Roedd y Clerc hefyd wedi dosbarthu'r Arweinlyfr Diogelu Data drwy e bost o flaen llaw, yn ogystal â chyflwyno adroddiad yn adolygu sefyllfa'r Cyngor ar hyn o bryd ar sail templed yr "ICO – 12 cam i gymryd nawr". Penderfynwyd rhoi caniatid i'r Clerc i drafod y posibilrwydd o gael cyngor wrth Swyddog Data'r Cyngor Sir cyn adrodd yn ôl a mynychu sesiwn arbennig Grwp Cynghorau Cymuned y

Gwendraeth / Each Member had been provided with papers in advance of the meeting. The Clerk had also circulated the Data Protection Toolkit through e mail in advance of the meeting, and had also presented a report reviewing the Council's position at the present time on the basis of the ICO template "12 steps to take now". It was resolved to authorise the Clerk to discuss the possibility of attaining advice from the County Council's Data Protection Officer before reporting back and also attend a special meeting of the Gwendraeth Group of Community Councils.

### **13.0 Materion Cynllunio / Planning Matters**

<u>Cyf/Ref</u>	Math/Type	Lleoliad/Location	Disgrifiad/Description	Penderfyniad y Cyngor / Council resolution
(i) W/36840	Full planning	NR BLAENGORS, LLANDDAROG ROAD, CAPEL DEWI	IMPLEMENT STORAGE SHED	<u>Penderfynnwyd nodi / Resolved to note.</u>
(ii) W/36852	Cynllunio Llawn/ Full Planning	MAESDULAIS QUARRY, PORTHYRHYD	Discharge of Planning Condition(s) - DISCHARGE OF CONDITIONS 24, 28 AND 47 ON W/21986 (BLAST MONITORING MEASURES, MONITORING NOISE LEVELS, TOPSOIL AND SUBSOIL STORES	<u>Penderfynnwyd nodi / Resolved to note.</u>

### **14.0 Taliadau/ Payments**

(a) Cadarnhawyd yr isod / The below were ratified

Rhif Cheque Number	Siec / /	Dyddiad/Date	Cyflenwr a manylion/ and details Suppliers	Swm/Sum
1335		26/02/18	Planning Aid Wales	£35.00
1336		05/03/18	Menter Gwasnaethau	£78.75
1337		06/03/18	HMRC	£517.20
1338		06/03/18	Cyflogau Wages	£2,068.72

Yn ogystal, fe wnaeth swm i'w dalu i'r Cyngor Sir am £3,224.30 ar gyfer ynni golau stryd cael ei gadarnhau / Also, a sum to the County Council for £3,224.30 for street light energy was confirmed.

### **15.0 Derbyniadau /Receipts**

Dim / None

### **16.0 Cynllun Datblygu Lleol / Local Development Plan**

Dylid cyfeirio at gofnod 3 (datganiadau o ddiddordeb). Fe benderfynnwyd nodi'r adroddiad adolygu a'r cytundeb cyflenwi drafft a rhestri'r safleoedd ymgeisio ar agenda cyfarfod mis Ebrill 2018 y Cyngor. / Reference should be made to minute 3 (declarations of interest). It was resolved to note the review report and the draft delivery agreement and list the candidate sites on the agenda of the April 2018 meeting of the Council.

### **17.0 Adolygiad o'r Archwiliad Mewnol a chadarnhau'r Cynllun Archwiliad am 2017-18 / Internal Audit review and confirmation of the Audit Plan for 2017-2018.**

Fe wnaeth Aelodau ystyried adroddiad ysgrifenedig y Clerc a ddarparwyd o flaen llaw'r cyfarfod. Roedd yr adroddiad a'r broses adolygiad wedi ei seilio ar y canllawiau o fewn "Governance and Accountability for Local Councils (Wales)", yn enwedig Atodiad 5. Penderfynwyd fel y ganlyn (a) bod yn cael ei nodi fod adolygiad wedi cael ei gynnal ar gyfer y rheoliadau (b) bod Mr Lewis M Jones i'w benodi (c) bod y llythyr ymrwymo yn cael ei gymeradwyo (d) Fod y Cynllun Archwiliad / cwmpas yn cael ei gymeradwyo. / *Members considered the written report of the Clerk which had been circulated in advance of the meeting. The report and review process was based upon the guidance contained within Governance and Accountability for Local Councils (Wales), notably Appendix 5. Resolved that (a) It be noted that a review has been undertaken for the purposes of the regulations (b) That Mr Lewis M Jones be appointed (c) That the letter of instruction be approved (d) That the audit plan / scope be approved.*

### **18.0 Adnewyddu aelodaeth Un Llais Cymru / Renewal of One Voice Wales membership**

Penderfynwyd adnewyddu ar sail y termau yn y llythyr / *It was resolved to renew on the basis of the terms in the letter.*

### **19.0 Cofrestr Aseiad Risg Corffolaethol / Corporate Risk Assessment Register**

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'r gofrestr o flaen llaw'r cyfarfod. Penderfynwyd cymeradwyo'r gofrestr yn ogystal â derbyn argymhelliad y Clerc y dylai cael ei dalu yn fisol yn lle dwywaith y flwyddyn oherwydd materion technegol cyflogres. / *Each Member had been provided with a copy of the register in advance of the meeting. Resolved to ratify the register and accept the Clerk's recommendation in relation to being paid each month as oppose to twice a year due to payroll technicalities.*

### **20.0 Rhestr iechyd a diogelwch ar gyfer Cynghorau Thref a Chymuned / Health and safety checklist for Community and Town Councils**

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o'r rhestr (a baratowyd gan Un Llais Cymru) o flaen llaw'r cyfarfod. Nodwyd fod dim angen polisi ar y Cyngor. Penderfynwyd nodi'r item yma. / *Each Member had been provided with a copy of the checklist (prepared by One Voice Wales) in advance of the meeting. It was noted that the Council did not need a policy. Resolved to note this item.*

### **21.0 Adroddiad Blynnyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol 2018/19 / Independent Remuneration Panel for Wales' Annual Report for 2018/19**

Fe wnaeth bob Aelod derbyn copi o Adran 13 o flaen llaw'r cyfarfod. Nodwyd fod penderfyniad 51 yn orchymynol. Penderfynwyd mabwysiadu'r penderfyniadau canlynol: 45, 48, 49, 50 & 51. Roedd Aelodau o'r farn fod penderfyniad 52 yn ymwneud a thaliadau personol trethedig i'r Cadeirydd ac nid yw hwn yr un peth a'r lwfans dinesig sy'n cael ei dalu i'r Cadeirydd gan y Cyngor. / *Each Member had been provided with a copy of Section 13 in advance of the meeting. It was noted that determination 51 is mandatory. It was resolved to adopt the following determinations: 45, 48, 49, 50 & 51.*

*Members were of the opinion that determination 52 relates to a taxable personal payment to the Chairman and that this is not the same as the civic allowance provided to the Chairman by the Council.*

**22.0 Fforwm er mwyn i Aelodau i godi adroddiadau / cwestiynau drwy'r Cadeirydd / Forum in order for Members to raise reports / questions through the Chairman**

(a) **Sbwriel o fewn y gymuned** – penderynwyd cyfathrebu gyda Chadw Cymru'n Daclus, y cwar lleol a hefyd gofyn am fwy o finiau yn yr ardal drwy'r Cyngor Sir / ***Littering within the community*** – *It was resolved to communicate with Keep Wales Tidy, local quarry and also ask the County Council for more bins within the area.*

(b) **Datblygu gwytnwch cymunedol** – penderynwyd derbyn cynnig Cyng J Williams i lunio cynllun cymunedol / ***Developing community resilience*** – *it was resolved to accept Cllr J Williams offer to draft a community plan.*

**23.0 Daeth y cyfarfod i ben am 21.10yh / The meeting finished at 21.10pm.**